CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 15fed Medi 2026 am 7.30yh.

1. Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan yr is-gadeirydd Eifion Jones.

2. **Ymddiheuriadau** – Thomas Williams, Eirian Allport, Siân Evans, Gwenno Griffiths, Guto Huws, Eilir Evans, Siôn Tomos, Ken Williams, Rhys Jones

Presennol - Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones (is-gadeirydd), Eleri Owen, Elias Jones, Gethin Roberts, Cyng. Dafydd Davies, Nia Jones (clerc)

3. **Datgan buddiant** – nid oedd neb yn datgan buddiant am unrhyw eitem a drafodir yn ystod y cyfarfod hwn.

4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 28ain Gorffennaf 2026** - Cynigiodd Elias Jones fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan Eifion Jones

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** -

1. Ynys Wyllt - llythyr wedi ei dderbyn gan Mia Williams cyfreithwyr ynglŷn â'r sefyllfa fel ag y mai ar hyn o bryd. Trafodwyd cynnwys y llythyr. Angen gofyn iddi ail-edrych drwy waith papur mynediad y fynwent am waith papur Ynys Wyllt gan eu bod wedi ei derbyn i gyd yr un adeg. Cynigiodd Aaron Hughes ddrafftio e-bost i yrru iddi gyda beth sydd angen ei holi. Adroddodd Cyng. Dafydd Davies ei fod wedi holi Marian Elias ond nid oedd yn gwybod unrhyw wybodaeth. Cynigwyd i gael popeth yn nôl ganddynt ac ail-ddechrau eto gyda chyfreithwyr newydd. Eiliwyd y cynnig hwn ac ar ôl trafodaeth cytunwyd yn unfrydol. Cynnig i holi cyfreithwyr sy'n delio gyda'r math yma o sefyllfa, gan nad yw ein cyfreithwyr ni yn medru delio â gwaith trosglwyddo tir (conveyancing). Roedd e-bost wedi ei dderbyn gan un o drigolion ardal Ynys Wyllt ynglŷn â'r tir yn gofyn a fysa'r cyngor cymuned yn fodlon gadael iddi roi gwartheg i bori yna? Cynigwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf er mwyn cael trafod hyn ymhellach.

2. Mynediad i'r fynwent - Nid oedd dim pellach i'w adrodd ar y mater felly cynigwyd i dderbyn popeth nôl a gofyn i gyfreithwyr eraill ymgymryd â'r gwaith hwn hefyd. Eiliwyd y cynnig.

3. Arwydd cyflymder Pontllyfni – yr arwydd wedi ei osod ac yn gweithio.

4. Cwynion am chwyn a chanclwm o gwmpas y pentrefi - Morris Williams wedi dechrau trin y canclwm o gwmpas yr ardal. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc dalu unrhyw anfoneb sy'n cael ei dderbyn ganddo a dim i ddisgwyl am ein cyfarfod nesaf.

5. Ffoes Simbil - dal yn sych felly methu gweld. Cyng. Dafydd Davies am gadarnhau bod swyddog Cyngor Gwynedd yn dod i weld y safle mis Hydref a gadael i Elias Jones wybod pryd er mwyn iddo gael bod yn bresennol hefyd.

6. Golau Nadolig – yn cael ei wneud yr un adeg a lamp Tai Lôn.

7. Goryrru yn Nhai Lôn - yr arwydd wedi cyrraedd a Chyngor Gwynedd yn barod i'w osod ar ôl penderfynu ble bydd yn cael ei osod. Aaron Hughes a Gethin Roberts am drafod ble i osod yr arwydd.

Arwyddwyd …… (Cadeirydd)

Dyddiad ……

8. Goryrru yng Nghlynnog Fawr - Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi ymweld â'r pentref. Adroddodd nad ydynt yn gosod twmpathau cyflymder bellach ond am roi arwyddion fyny yn nodi nad oes palmant a bod pobl yn cerdded. Llawer o ddim byd arall yr oedd am fedru gwneud ar hyn o bryd. Hefyd mae wedi cysylltu â Gan Bwyll i weld os allent ymweld â'r pentref ond maent yn cymryd tua 6mis i ymateb. Cynnig y gellir symud yr arwydd 20mya sydd rhy agos i'r gyffordd ochr Caernarfon o'r pentref yn fwy fyny'r ffordd am y pentref.

9. System CCTV – angen holi Siôn Tomos am hyn.

10. Gwyneb bwrdd arwydd Pontllyfni – wedi derbyn pris gan Designer Signs – cynnig ac eilio i gario ymlaen,

6. Diweddariad ynglŷn â phrosiect y Grid Cenedlaethol - ymateb wedi dod i'r e-bost ac adroddwyd i'r cyngor. Cynigwyd ac eiliwyd y dylid rhoi'r ymateb ar ein tudalen we.

7. Ceisiadau cynllunio – dim cais wedi dod i law.

8. Materion ariannol –

- *Sefyllfa Ariannol 28/08/2026*

  Cyfrif Cyfredol = £39,549.93

  Cyfrif Elusen = £160.22

- *Anfonebau i'w talu*

  - *£696.00 – Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth archwilio mewnol*
  - *£440.00 – Siediau Nefyn – 2 mainc picnic*
  - *£180.00 - Jones Peckover - chwilio am ddogfennau yn ymwneud ac Ynys Wyllt*
  - *£91.00 – Lloyd Evans & Hughes – Ffioedd treuliau*
  - *£6450.00 – Arwel Jones – torri gwair a llwybrau*

Cytunwyd i'r clerc dalu'r anfonebau hyn.

9. Bioamrywiaeth - yn y broses o waredu chwyn o gwmpas yr ardal.

10. Gohebiaeth - pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth a thrafodwyd. Nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth.

- Cyngor Gwynedd – Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru
- AHNE – diweddariad gwaith hawl tramwy cyhoeddus yn yr ardal
- Dŵr Cymru – Llyn Cwm Dulyn
- AHNE – Neuadd bentref Clynnog – cymorth o ran arbed ynni
- Unllais – Grŵp data cynghorau

11. Materion aelodau -

Guto Huws - Y gyffordd i'r A487 a'r lon heibio i fferm Bryn Gro. Wrth dynnu allan i'r A487 mae yn anodd gweld i'r dde (i gyfeiriad Porthmadog) - mae yna dyfiant ac arwyddion wedi eu gosod sydd yn ei gwneud hi'n anodd gweld a thynnu allan yn ddiogel.

Eirian Allport – Wedi derbyn cwynion bod y fainc yn cae chwarae Pontllyfni hefo 'splinters' arni a bod y set braidd yn uchel.

Arwyddwyd …….. (Cadeirydd)

Dyddiad ……

Eifion Jones – wedi cael bagiau baw cŵn i roi ar arwyddion o gwmpas yr ardal. Siôn Tomos ac Eifion Jones am fynd o gwmpas i'w gosod. Angen arwydd baw ci wrth y safle bws yn Gyrn Goch – y clerc i archebu 5 maint A4 gan Designer Signs.

Eleri Owen – llwybr fyny heibio fynwent Capel Uchaf dal heb gael ei dorri ac angen sylw.

Aaron Hughes - holi os oes modd cael safle i roi biniau'r tai wrth ymyl Tŷ Gwyn, Capel Uchaf gan fod biniau'r tai yn cael eu gadael yn y ffordd drwy'r adeg a gwastraff yn cael ei ollwng ymhob man. Cyng. Dafydd Davies wedi holi am hyn ac am ddilyn fyny ar y mater. O bont Tai Lôn i lawr mae'r wal hefo terfyn Minafon wedi dechrau mynd fewn am yr ardd, ar ardd yn is na'r ffordd ac angen sylw. Cyng. Dafydd Davies wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn a swyddog i fod mynd allan i arsylwi'r mater.

Gethin Roberts - gofyn a oes modd cael bin baw ci yn Nhai Lôn - llwybr Bryn Hafod (dros ffordd i Gân Yr Aderyn).

12. Cyfarfod nesaf - Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 20fed Hydref 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Clynnog Fawr.

Arwyddwyd …….. (Cadeirydd)

Dyddiad ……..